Tystiolaeth gan Cyngor Sir Powys

Cyngor Sir

# POWYS

County Council

Ymateb i'r

**Ymchwiliad i'r cynigion deddfwriaethol drafft ar Gronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020**

gan Bwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*11 Tachwedd 2011*

Rhagarweiniad:

1. Mae Cyngor Sir Powys yn croesawu'r ymchwiliad hwn oherwydd ei fod yn rhoi cyfle i gael trafodaeth lawn yng Nghymru yn y cam cynnar hwn yng nghynnig polisi a rhaglen y Comisiwn Ewropeaidd.
2. Mae'r cyfraniad hwn gan Gyngor Sir Powys yn trafod y gyfres lawn o gynigion rheoleiddio gan y Comisiwn Ewropeaidd ar y Cronfeydd Strwythurol: Com (2011) 615; Com (2011) 614; Com (2011) 607; a Com (2011) 611. Mae hefyd yn cyfeirio at gynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar y PAC lle bo hynny'n berthnasol.
3. Cyngor Sir Powys yw un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, y mwyaf o ran arwynebedd a'r prinnaf o ran poblogaeth. Mae'n ymestyn dros 5,181 $Km^2$ – tua chwarter tiriogaeth Cymru. Mae bron i 90% o'i diriogaeth yn dir amaethyddol, ac mae'n cynnwys cyfran helaeth o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
4. Mae gan Bowys boblogaeth o tua 130,000 o bobl; gyda dwysedd o tua 26 o bobl i bob $Km^2$ (y cyfartalog dros Gymru gyfan yw tua 144), Powys yw'r Cyngor prinnaf ei boblogaeth yng Nghymru a Lloegr. Dim ond trefi Aberhonddu, y Drenewydd a'r Trallwng sydd â phoblogaeth o fwy na 5,000, mae gweddill trigolion Powys yn byw mewn pentrefi a ffermydd gwasgaredig.
5. Mae'r strwythur economaidd ym Mhowys yn dioddef o wendidau strwythurol, fel allbwn economaidd isel, gor-ddibynnu ar gynhyrchu ar lefel cynradd heb fawr ddim o werth yn cael ei ychwanegu, ynghyd â chyfleoedd gwaith prin. Mae hyn i'w weld gan lawer o ddangosyddion economaidd a dadansoddiadau ystadegol lle mae'r Sir yn aml yn agos at waelod y raddfa. Er enghraifft, Powys sydd â'r enillion wythnosol cyfartalog ail isaf yng Nghymru a lefel gyflogaeth sy'n lleihau[1]. Mwy pryderus fyth yw'r ffaith bod Powys wedi gweld lleihad dramatig mewn Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) dros y blynyddoedd diwethaf, fel bo'r Sir yng ngwaelod y tabl yng Nghymru a'r trydydd o'r gwaelod yn y DU[2]. Er bod y GYC yn cael ei ddylanwadu gan ffactorau fel cymudo (sy'n effeithio llai ar Bowys), o'i gyfuno gyda dangosyddion eraill mae'n dangos sut mae economi Powys wedi dioddef yn anghyfartal o'r dirwasgiad economaidd, ac mae ei strwythur economaidd yn golygu bod ei hadferiad yn anoddach.
6. Er i berfformiad economaidd Powys, sy'n ardal NUTS 3 yn nhermau ystadegau Ewropeaidd, fod yn wael dros y deng mlynedd diwethaf oherwydd elfennau strwythurol a ffactorau allanol, at ddibenion rhaglenni Ewropeaidd mae wedi'i chynnwys yn ardal NUTS 2 "Dwyrain Cymru". Dros gyfnod rhaglenni 2000-2006 Cronfeydd Strwythurol yr UE, roedd Powys yn gymwys o dan y rhaglenni "Amcan 2" ac "Amcan 3". O dan y cyfnod presennol 2007-2013, mae Powys yn gymwys ar gyfer y "Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol" (*Cystadleurwydd).* Os cymhwysir y meini prawf economaidd a daearyddol presennol ar

[1] "Ystadegau Cryno Ardaloedd Lleol" Llywodraeth Cynulliad Cymru, 26 Ebrill 2011.
[2] "Cynhyrchedd ym Mhowys 2004-2008", Powys-*i*, Uned Ymchwil & Gwybodaeth Ystadegol, Cyngor Sir Powys (Atodiad 1).

gyfer cyfnod rhaglenni'r dyfodol, mae'n debyg y caiff Powys ei chynnwys o dan yr un math o raglen *Cystadleurwydd* dros y cyfnod 2014-2020 nesaf. Dyma'r rhaglenni a dargedir at y "rhanbarthau mwy datblygedig" h.y. gyda Chynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) mwy na 75% o gyfartalog yr UE, a lefel gyfyngedig o gyllid UE ar gael. Fodd bynnag, mae nifer o ddangosyddion economaidd a chymdeithasol yn rhoi Powys mewn sefyllfa debyg – a gwaeth weithiau – i lawer o awdurdodau yng Nghymru sy'n gymwys ar gyfer y rhaglenni "Amcan 1" a "Cydgyfeirio", sy'n derbyn lefelau sylweddol uwch o gyllid gan yr UE ac sy'n gallu cefnogi ystod ehangach o brosiectau, oherwydd eu perfformiad economaidd isel.[3]

7. Yn ddiweddar lansiodd y Cyngor "Strategaeth Adfywio Powys" i sbarduno'r broses o adfywio a datblygu'r Sir. Mae'r strategaeth yn cynnig fframwaith y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn ei ddefnyddio i sicrhau bod adfywio wedi'i wreiddio ym mhopeth a wneir ganddynt, er mwyn darparu canlyniadau fydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr elfennau ffisegol, cymdeithasol ac amgylcheddol tra'n hyrwyddo nodweddion economaidd a diwylliannol y sir. Mae blaenoriaethau a themâu'r strategaeth yn gyson â llawer o'r blaenoriaethau a nodir yn y cynigion Cronfeydd Strwythurol ac, ar y cyfan, yn unol ag amcanion strategaeth "Ewrop 2020" y Comisiwn Ewropeaidd.

8. Dros y blynyddoedd mae Cyngor Sir Powys wedi llwyddo i reoli a gweithredu prosiectau a gefnogwyd gan raglenni wedi eu hariannu gan Ewrop a Llywodraeth Cymru, fel arweinydd prosiect neu mewn cydweithrediad â phartneriaid rhanbarthol, cenedlaethol ac Ewropeaidd eraill. Mae hyn yn cynnwys llwyddiant wrth reoli prosiectau a rhaglenni "Amcan 2" ac "Amcan 3", wrth ddarparu prosiectau wedi eu hariannu gan Ganolfannau Rhagoriaeth Rhanbarthol, ac fel partner mewn prosiectau wedi eu hariannu gan Interreg IVC, Interreg IVB ac Ynni Deallusol Ewrop.

9. Yn y Cynllun Datblygu Gwledig presennol ar gyfer Cymru (2007-2013), y Cyngor Sir yw'r Corff Arweiniol ar weithredu Echel 3 ac Echel 4 ym Mhowys.

10. Dros y blynyddoedd diwethaf mae Powys wedi llwyddo i gefnogi ymgysylltu rhwng partneriaethau lleol gan sicrhau darpariaeth effeithiol ar y ddaear ynghyd â chyflawni amcanion sydd wedi rhoi canlyniadau cadarnhaol i gymunedau Powys.

11. Felly mae Cyngor Sir Powys yn rhanddeiliad pwysig yn y broses o ddarparu'r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Gall gyfrannu at sicrhau bod amcanion y rhaglenni'n cael eu cwrdd, bod gwaith yn cael ei gyflawni sy'n mynd i'r afael â phroblemau'r ardal tra'n gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill i gyfrannu at gynnydd a datblygiad Cymru.

<u>Y prif bwyntiau:</u>

[3] "Rhagamcanion CMC Is-Ranbarthol 2008", PMC(11)157, Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan.

12. Mae Powys yn cefnogi rhan yr holl randdeiliaid perthnasol yn y broses ymgynghori hon a rhai yn y dyfodol. Rydym yn cymell yn gryf, ar lefel Cymru ac Ewrop, bod awdurdodau lleol a rhanbarthol yn cyfrannu'n llawn, yn agored ac yn dryloyw at baratoi, gweithredu a monitro'r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru yn y dyfodol.

13. Mae Powys yn croesawu'r pwyslais cryf ar ddull partneriaeth sydd yn y cynigion wrth baratoi a darparu rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Hoffem weld y dull hwn yn cael ei drosi'n llawn o lefel Gwledydd yr UE i lefel ranbarthol ac awdurdod lleol. Yn enwedig, rydym yn croesawu'r cynnig i gael dull "Datblygiad lleol cymunedol" o weithredu'r rhaglenni (fel a ddisgrifir ym Mhennod II y rheoliad cyffredinol) ac yn enwedig y ddarpariaeth bod strategaethau datblygu lleol a grwpiau gweithredu'n gallu cyfrannu at ddarparu'r rhaglenni.

14. Mae gennym hefyd ddiddordeb yn y cynnig ar gyfer "Cyd-gynllun gweithredu" (fel a ddisgrifir ym Mhennod III y rheoliad cyffredinol) a hoffem drafod y dull hwn ymhellach gyda rhanddeiliaid Cymreig. Gallai hyn fod yn drefn ddarparu ddiddorol a allai gyfrannu at wella'r dull partneriaeth, sydd eisoes yn nodwedd o waith llawer o Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

15. Mae Powys yn croesawu'r cynnig ar gyfer "Contract Partneriaeth" rhwng y Comisiwn Ewropeaidd a Gwledydd yr UE i gryfhau'r broses o ddarparu rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Fodd bynnag, rydym yn argymell bod yr holl randdeiliaid rhanbarthol a lleol yn cyfrannu'n llawn ac yn ddiffuant, fel a nodir yng nghynigion y Comisiwn Ewropeaidd. Yn ogystal, byddem yn croesawu pennod benodol ar gyfer Cymru i sicrhau bod y "Contract Partneriaeth" yn adlewyrchiad gwirioneddol o'r ymrwymiad i bartneriaeth ac yn rhoi sylw i anghenion Cymru.

16. Mae Cyngor Sir Powys yn croesawu cynigion y Comisiwn Ewropeaidd i gyplysu'r Cronfeydd Strwythurol (ERDF a'r ESF) gyda'r EAFRD a'r EMFF o dan Fframwaith Strategol Cyffredinol (Cronfeydd CSF), oherwydd bod hwn yn gyfle unigryw i gyfuno ffynonellau cyllid, sy'n cael effaith bwysig ar lefel diriogaethol, mewn ffordd gydlynus ac effeithiol.

17. Fodd bynnag, rydym yn galw am ganllawiau a threfniadau dosrannu clir a thrylwyr ar gyfer y rhaglenni ar lefel leol a rhanbarthol i sicrhau bod digon o adnoddau o'r Cronfeydd CSF yn cael eu dyrannu i gefnogi economïau gwledig a'u cymunedau.

18. Mae Cyngor Sir Powys yn croesawu'r nodau a'r amcanion thematig y bwriedir cyrchu atynt. Yn benodol y nod i'w cysoni gyda'r amcan i sicrhau twf campus, cynaliadwy a chynhwysol fel a ddisgrifir yn strategaeth Ewrop 2020.

19. Fodd bynnag, lleisiwn bryderon difrifol ynghylch y cynnig yn y rheoliad ERDF sy'n lleihau'n andwyol y dewis o ymyriadau a dyraniad adnoddau i'r "rhanbarthau mwy datblygedig". Tra'n deall bod angen dyrannu adnoddau prin yn effeithlon, gwrthodwn y cynigion a nodir yn Erthyglau 3 a 4 sy'n cyfyngu'n sylweddol ar sgôp y cymorth a dyraniadau ariannol cymharol y cyllid ERDF. Cytunwn gyda phwyslais y Comisiwn Ewropeaidd fod angen gwerthuso'r rhaglenni *ex-ante*, i sicrhau eu bod

yn rhoi sylw i broblemau'r ardaloedd y maent yn gweithredu o fewn iddynt. Felly hefyd, mae'n bwysig bod y dewis ynghylch y math o weithgaredd a'r dyraniad cyllid yn cael ei wneud ar lefel leol a rhanbarthol. Peryglon y dull mwy caethiwus a gynigir yw achub y blaen ar gynnwys y rhaglenni, atal y cyfraniad lleol at baratoi a darparu'r prosiectau, a chreu diffyg cysondeb o ran gweithredu ac amcanion, gan ei gwneud yn anoddach i'r chwaraewyr lleol a rhanbarthol gyflawni amcanion Ewrop 2020.

20. Yn olaf, gwrthwynebwn y ddarpariaeth sy'n atal defnyddio'r ERDF ar gyfer seilwaith TGCh. Mae seilwaith band eang, yn enwedig, yn bwysig ar gyfer ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth oherwydd mae'n gallu helpu i wella'r agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar yr ardal. Rydym yn ffyddiog y bydd Cynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru'n gweld sut fyddai'r ddarpariaeth arfaethedig yma'n ei gwneud yn anodd iawn cyflwyno'r agenda seilwaith band eang, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

21. Mae Cyngor Sir Powys yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad ar system y gronfa berfformiad, yn enwedig o ystyried yr effaith bosibl allai cronfa o'r fath ei chael ar ddarparu'n lleol. Hefyd, gallai rhyddhau'r gronfa tuag at ddiwedd oes y rhaglenni ychwanegu llai o werth at brosiectau sy'n rhedeg yn ogystal â chyflwyno risg o sialensau gweinyddol ychwanegol.

22. Fel a nodir yn y rhagarweiniad, er gwaethaf perfformiad economaidd Powys a bod y dangosyddion yn debyg i rai'r "rhanbarthau llai datblygedig", mae'r Sir wedi'i chynnwys yn y categori "rhanbarthau mwy datblygedig". Oherwydd y sefyllfa hon, nid yw lefel y Cronfeydd Strwythurol sydd ar gael i Bowys yn ddigon i sicrhau y gall gyflawni amcanion y polisi Cydlyniant ac amcan y polisi ar Gydlyniant Tiriogaethol. Byddem yn croesawu trafodaethau pellach gyda Chynulliad Cymru a Gweinidogion Cymru ar y posibilrwydd o adolygu cynnwys Powys naill ai yn y categori "rhanbarthau llai datblygedig" neu "ranbarthau pontio" fel y gellir defnyddio digon o adnoddau o'r Cronfeydd Strwythurol i fynd i'r afael â'r problemau strwythurol sydd wedi bod yn effeithio ar economi Powys dros y degawdau diwethaf.

23. Os na fyddai newid categori'n bosibl, byddem yn pwyso ar Gynulliad Cymru a Gweinidogion Cymru i fanteisio'n llawn ar y trefniadau addasu a amlinellir yng nghynigion y Comisiwn Ewropeaidd. Yn y rheoliad cyffredinol, o dan Erthygl 85, mae'n bosibl i Wledydd yr UE drosglwyddo hyd at 2% o gyfanswm y dyraniad cymorth rhwng categorïau. Gofynnwn ichi ystyried y trosglwyddiad hwn fel bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer rhaglenni'r dyfodol. Hefyd, mae Erthygl 111 (3) (c) yn yr un rheoliad yn nodi'r posibilrwydd o fodiwleiddio'r cyfraddau cyd-gyllid ar gyfer ardaloedd prin eu poblogaeth, h.y. llai na 50 o drigolion i bob cilomedr sgwâr. Mae Powys yn gymwys ar gyfer y modiwleiddio hwn a gofynnwn iddo gael ei gynnwys mewn rhaglenni yn y dyfodol.

24. Rydym yn croesawu'r cynigion ar symleiddio'r rheolau gweinyddol, gan gynnwys archwilio, ac ar gysoni'r rheolau cymhwyster rhwng Cronfeydd

y CSF, gyda'r amcan penodol o ysgafnu'r baich ar fuddiolwyr a sicrhau bod y cronfeydd yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Pwyswn ar y Cynulliad i sicrhau y bydd y rhaglenni yng Nghymru yn y dyfodol yn gyson â'r dull hwn er mwyn dileu unrhyw hindrans gweinyddol diangen tra'n symleiddio'r trefniadau darparu lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

25. Daw cyfraniad cadarnhaol arall at symleiddio gan y ffurfiau cymorth arfaethedig a ddisgrifir yn Erthyglau 56 i 59 yn y rheoliad cyffredinol. Rydym yn croesawu'r amrywiol ffurfiau cymorth a gynigir, yn enwedig y gwahanol fathau o grantiau. Ar gyfer rhai mathau o brosiectau, mae'r ffurfiau cymorth hyn wedi profi i fod yn fwy effeithiol na threfniadau eraill mwy cymhleth fel caffael. Maent yn haws i'r buddiolwyr gael gafael arnynt a gellir eu gweinyddu i fodloni'r rheolau ar reolaeth weinyddol ac ariannol gadarn.

26. O ran rheoliad arfaethedig yr ESF, mae Powys o blaid y pwyslais a gynigir ar weithgareddau trawswladol. Gobeithiwn y bydd canllawiau clir yn eu lle i gefnogi hyn ac i sicrhau y gall rhanddeiliaid a buddiolwyr yng Nghymru wneud y mwyaf o'r cyfle hwn. Mae'n gyfrwng pwysig i ddylanwadu ar ennill adnoddau tra'n cynnig y posibilrwydd o gynyddu capasiti.

27. O ran y rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol, mae Powys yn credu bod gan Gymru lawer i'w ennill o brosiectau o dan y rhaglenni hyn. O'r herwydd, rydym yn croesawu'r cynnydd arfaethedig mewn cyllid sydd i'w ddyrannu i'r tri amcan ac yn pwyso ar y Cynulliad a Gweinidogion Cymru i'w gefnogi mewn trafodaethau yn y dyfodol.

28. Byddem hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i greu cronfa gyd-gyllid benodol er mwyn ysgafnu'r baich ar fuddiolwyr ac i ysgogi mwy o randdeiliaid o Gymru i fanteisio ar y rhaglenni. Mae'r dull hwn wedi'i fabwysiadu'n barod gan wledydd eraill yn yr UE, gan gyfrannu'n sylweddol at gael gafael ar gyllid yn y gwledydd hynny.

29. Rydym hefyd yn croesawu'r arwyddion clir ar symleiddio rhai rheolau gweinyddol gan obeithio y bydd wedyn yn haws i randdeiliaid lleol a rhanbarthol gael mynediad at y rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol.

<u>Casgliadau</u>

30. Mae Cyngor Sir Powys yn cefnogi amcanion y polisi Cydlyniant ac Ewrop 2020 ac yn croesawu parhau gyda'r polisi ar gyfer holl ranbarthau Ewrop. Rydym yn cymell bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu i Gronfeydd Strwythurol yn y dyfodol, bod pethau'n cael eu symleiddio'n sylweddol, a bod y cronfeydd CSF yn cael eu cyplysu'n llawn er mwyn llwyddo i gyflawni amcanion lleol, cenedlaethol ac Ewropeaidd.

<u>Am fwy o wybodaeth, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:</u>

Filippo Compagni
Rheolwr Polisi Ewropeaidd & Nawdd Allanol, Cyngor Sir Powys
Ffôn: 01957 826641, e-bost: filippo.compagni@powys.gov.uk